# RHODIO'R RHYL



***Ariennir***
***Rhodio'r Rhyl gan***
***Read is funded by:***

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

***A daw i chi gan:***

CYNGOR TREF Y RHYL TOWN COUNCIL

Helo a chroeso i rifyn diweddaraf ***Rhodio'r Rhyl***. Gobeithio eich bod yn parhau i fwynhau eich cylchgrawn am ddim. Mae'n anodd credu ein bod ar rifyn yr hydref yn barod – mae blwyddyn arall wedi mynd heibio bron. Gobeithio, gallwn fwynhau ychydig mwy o ryddid y gaeaf yma.

Ond fel pawb arall, rydym yn cadw mewn cof heriau'r misoedd nesaf a chadw ein hunain yn ddiogel ac iach i gynorthwyo'r GIG a'r sawl sy'n gofalu amdanom.

Wrth i'r dyddiau fyrhau, gall misoedd y gaeaf fod yn gyfnod anodd, yn enwedig ar gyfer y sawl sy'n byw ar eu pennau eu hunain neu sydd ar wahân i'w ffrindiau a theulu. Rydym yn gobeithio y bydd ***Rhodio'r Rhyl*** yn cadw cwmni i chi a rhoi rhywbeth i chi ei wneud dros yr ychydig fisoedd nesaf. Unwaith eto, rydym wedi cynnwys pethau i chi eu gwneud, gwybodaeth ddifyr o'n tref a rysait iach o gegin dau o'n cynghorwyr.

enquiries@rhyltowncouncil.org.uk

Yn y rhifyn yma, rydym yn canolbwyntio ar arwyddlun y dref gydag esboniad o beth ydy o a chyfle i'w liwio – mae'n fanwl ac felly bydd angen amser ac amynedd i'w gwblhau!

Yn ddiweddar, dechreuais wneud ymchwil i'r arwyddlun, ac roeddwn wedi fy synnu o weld yr ystyr. Oeddceh chi'n gwybod mai arwyddair y dref yw 'yr hafan deg ar fin y don'? Wrth i mi edrych allan ar ddiwrnod braf o hydref, mae'n teimlo'n fwy addas fyth. Rydym yn ffodus o gael byw mewn lle ysbrydoledig, un lle mae ein cymuned yn gofalu am eraill.

Wrth i ni fynd i fisoedd y gaeaf, hoffwn annog pob un ohonom i gadw llygad ar ein gilydd, yn enwedig y rhai sy'n agored i niwed.

Os gallwn helpu, cysylltwch.

Mae manylion cyswllt y Cyngor i'w gweld yn y cylchgrawn. Tan y tro nesaf, dymuniadau gorau i chi i gyd.

*Maer y Rhyl, Y Cyngh. Diane King*

## Cynnwys

**Tudalen 3** Cwis arwyddlun
**Tudalen 4** Her lliwio'r arwyddlun
**Tudalen 5** Chwilio geiriau'r hydref
**Tudalen 6** Lliwio bwyd
**Tudalen 7** Darlleniad cyflym
**Tudalen 8** Cawl cynnes Win ac Alan
**Tudalen 9** Diweddariadau a chyngoradvice
**Tudalen 10** Cerdyn post




📸 Denbighshire County Council

Rydym ar Facebook
@RhylTownCouncil

Rydym ar Twitter
@RhylTownCouncil

**Oes gennych broblem ac angen ein help?**

**Mae eich cynghorydd lleol i'w weld yma:**
**www.rhyltowncouncil.org.uk**

---

## Oes gennych chi rywbeth yr hoffech ei weld yn Rhodio'r Rhyl?
## Anfonwch neges i
## enquiries@rhyltowncouncil.org.uk

# CWIS ARWYDDLUN



1. Cafodd arwyddlun y dref ei grantio yn swyddogol ym 1967, a'i drosglwyddo i Gyngor Tref y Rhyl yn 19_3.

2. Gelwir lliw sylfaenol y darian yn Tenny, sy'n golygu lliw llwydfelyn ac maen cyfeirio at y mileoedd o'r t_ _ _d y mae'r Rhyl yn enwog amdanynt. Nid yw'r lliw yn cael ei ddefnyddio'r aml mewn arfau a dyma'r arfau dinsig cyntaf yn Ynysoedd Prydain i gael lliw 'Tenny'.

3. Mae'r glas a'r gwyn yn symboleiddio'r m_ _ a'r harbwr yn y Rhyl ar Afon Cl_ _ d. Mae'r gair "Clwyd" yn golygu plethaith neu hyrdlen sy'n ymestyn ar draws y darian.

4. Mae'r llong a'r e_ _ ar y darian yn cynrychioli'r diwydiant hwylio a physgota yn y Rhyl.

5. Mae'r lliw _ _ _ _ yn cynrychioli Tywysogaeth Cymru.

6. Mae'r domen werdd yn cynrychioli b_ _n lle o ble mae ystyr y Rhyl yn dod. Mae'r darian yn cynnwys Draig Goch Cymru.




**ARWYDDAIR**

YR HAFAN DÊG AR FIN Y DÔN
The fair haven at the edge of the waves

**Atebion**
1983
Tywod
Môr
Clwyd
Eog
Coch
Bryn

# LLIWIO'R ARWYDDLUN

**Mae gan arwyddlun ein tref lawer o fanylion. Allwch chi ei ailgreu? Rydym wedi rhoi'r amlinelliad i chi, ac mae'r fersiwn orffenedig isod.**




CYNGOR TREF Y
RHYL
TOWN COUNCIL


# Chwilio Geiriau



## Autumn in Rhyl

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| T | Y | E | B | A | K | I | N | G | P | S | U | I | C |
| N | T | E | C | E | T | S | W | E | A | T | E | R | S |
| S | S | N | H | S | N | T | E | S | S | U | R | U | U |
| G | I | F | I | E | I | G | E | E | C | O | R | E | L |
| O | M | A | L | L | G | P | A | G | E | R | D | L | E |
| L | P | L | L | P | G | U | S | L | A | A | R | O | A |
| D | I | L | Y | P | M | M | E | K | E | I | E | E | V |
| E | N | I | N | A | C | P | T | S | N | N | L | I | E |
| N | E | N | C | O | N | K | E | R | S | C | Y | O | S |
| T | C | G | C | R | I | I | K | A | C | O | C | I | F |
| E | O | N | C | R | U | N | C | H | P | A | R | G | L |
| L | N | D | F | H | O | S | C | A | E | T | I | N | G |
| D | E | P | U | D | D | L | E | S | A | I | S | O | U |
| H | S | R | B | O | N | F | I | R | E | S | P | I | C |

PUMPKINS
FOLIAGE
PINECONES
CHILLY
PUDDLES
CRUNCH
FALLING
GOLDEN
CONKERS
BAKING
RUSSET
LEAVES
APPLES
BONFIRES
MISTY
RAINCOAT
SWEATERS
CRISP




# GAFAELWCH YN EICH PENSILIAU LLIWIO!



# DARLLENIAD CYFLYM
# John Keats
# ‘To Autumn’

Season of mists and mellow fruitfulness,
Close bosom-friend of the maturing sun;
Conspiring with him how to load and bless
With fruit the vines that round the thatch-eves run;
To bend with apples the moss’d cottage-trees,
And fill all fruit with ripeness to the core;
To swell the gourd, and plump the hazel shells
With a sweet kernel; to set budding more,
And still more, later flowers for the bees,
Until they think warm days will never cease,
For summer has o’er-brimm’d their clammy cells …






# Cawl cynnes Win ac Alan

**Made'r misoedd oerach yn golygu cawl maethlon a bara hyfryd. Yma, mae'r cynghorwyr Win Mullen-James ac Alan James yn rhannu eu hoff rysait cawl.**



## Cynhwysion

1 llwy fwrdd olew llysiau
15gm menyn
1 nionyn mawr, wedi ei dorri
3 pannas mawr wedi eu sleisio
2 clog garlleg
1 llwy fwrdd lefel garam masala
1/2 llwy de powdr chilli
2 daten fawr wedi eu plicio a'u torri'n fân
850ml stoc llysiau
Halen a phupur i flasu

## Dull

Cynheswch yr olew a'r menyn mewn sosban fawr
Ychwanegwch y nionyn, pannas, tatws a garlleg a ffrio nes bo'r llysiau yn feddal ond heb liwio.
Ychwnaegwch y sbeisys, gan gymysgu'n dda am ryw 30 eiliad
Ychwanegwch y stoc a mudferwi nes bydd y llysiau yn feddal
Tynnwch rai o'r llysiau allan gyda llwy rychog a'u rhoi ar un ochr
Trowch gweddill y cawl yn hylif cyn ychwanegu'r llysiau sydd ar ôl yn y sosban
Halen a phupur nes bydd y blas yn iawn a chynhesu nes y bydd yn boeth

# DIWEDDARIADAU A CHYNGOR

**E-sgwteri: dim lle iddyn nhw ar ein ffyrdd**

Mae llawer ohonoch wedi bod mewn cysylltiad â ni i fynegi pryderon ynglŷn â'r e-sgwteriaid a welir yn gwibio o gwmpas y dref weithiau.

Rydym yn rhannu eich pryderon ac yn gweithio gyda phob parti a grŵp i drechu'r gweithgaredd anghyffreithlon. Os ydych yn adnabod rhywun sydd ag un o'r rhain, atgoffwch nhw:

- Nid yw'n bosibl ar hyn o bryd cael yswiriant priodol ar gyfer e-sgwter preifat felly mae'n anghyfreithlon eu defnyddio ar ffyrdd neu fannau cyhoeddus eraill.
- Gellir eu defnyddio'n gyffreithlon ar dir preifat a gyda chaniatâd perchennog y tir.
- Mae defnyddwyr anghyfreithlon mewn perygl o gael Hysbysiad Cosb Benodol am fod heb yswiriant (dirwy o £300 a chwe pwynt ar y drwydded) ac am fod heb drwydded (dirwy hyd at £100 a rhwng tri a chwe phwynt cosb).
- Mae gan yr heddlu amrywiol gosbau a dirwyon ar gael gan gynnwys atafaelu e-sgwter os yw'r reidiwr yn ymddwyn mewn modd gwrthgymdeithasol.
- 🚫 **Helpwch i gadw ein ffyrdd yn ddiogel: Os gwelwch unrhyw beth sy'n torri'r gyfraith, yna gadewch i'r heddlu wybod. 📞101.**

## Neges gan Gynghorwyr Tref y Rhyl



Hoffem ddiolch i drigolion Ward y Dwyrain am eu hamynedd wrth i'r amddiffynfeydd morol newydd gael eu hadeiladu.

Mae'r gwaith bron wedi ei gwblhau bellach a bydd yn amddiffyn 1,200 o gartrefi.

Fel y gallwch weld, mae'r arfogaeth drom yn setlo ac yn is na'r mur môr newydd felly gellir mwynhau golygfeydd o'r môr o hyd. Mae'r promenâd o Splash Point tuag at Glwb Golff y Rhyl bron ddwywaith lled yr hen un hefyd.

**Tro nesaf:** Sut i gael hyd i'r diffibrilwyr yn y Rhyl

# HYDREF YN Y RHYL

Colli ffrind?
Eisiau gadael i anwyliad wybod eich bod yn meddwl amdanyn nhw?
Pam na wnewch eich cerdyn post eich hun a'i anfon atyn nhw.
Torrwch y llun isod allan a'i lynu ar ddarn o bapur A4 cryf wedi ei blygu yn ei hanner. Ychwanegwch eich dyluniad eich hun ar yr ymylon, ysgrifennwch eich neges, ei roi mewn amlen a dyna ni!
Eich cerdyn arbennig chi o'r Rhyl yn yr Haul yn barod i fynd.
Postiwch o un o'r blychau post gyda'r gorchuddion lliwgar i roi gwên ychwanegol!
Diolch i Gyngor Sir Ddinbych am y ffotograff.

## BYDDAI'N DDA PE BAECH CHI YMA!
## MACHLUD AR Y TRAETH

